OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 812

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002

## RHAN VII —

## AMRYWIOL

**Cydymffurfio â rheoliadau**

**22.** Os oes mwy nag un person cofrestredig ar gyfer darparu gofal dydd i blant perthnasol ar yr un safle, ni fydd yn ofynnol i unrhyw un o'r personau cofrestredig wneud unrhyw beth y mae'n ofynnol o dan y rheoliadau hyn iddo gael ei wneud gan y person cofrestredig, os yw wedi'i wneud gan un o'r personau cofrestredig eraill.

**Safonau**

**23.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig roi sylw i'r safonau gofynnol cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn y datganiad safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i'r math o ofal plant sy'n cael ei ddarparu gan y person cofrestredig.

(2) Mae unrhyw honiadau bod y person cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â pharagraff (1) i'w cymryd i ystyriaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ran XA o'r Ddeddf ac mewn achos o dan y Rhan honno o'r Ddeddf.

**Tramgwyddau**

**24.** Bydd person cofrestredig sydd, heb esgus rhesymol, yn torri gofynion rheoliadau 3 i 21 neu'n methu fel arall â chydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd a bydd yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.